

## HANES PWLLHELI

Yr oedd hen ganolfan Denio ym Mhenrallt yn llys i'r tywysogion yng Nghwmwd Calflogion. Yn ystod ail hanner y ddeuddegfed ganrif symudwyd y llys a chodwyd castell pren ger y môr yn y pwll heli. Yr oedd yma lanfa naturiol lle yr oedd dwy afon lled fawr yn cyrraedd y môr: Afon Erch ac Afon Talcymerau /Rhyd Hir. Datblygodd canolfan bysgota a masnachu yna, ond roedd hefyd yn hafan naturiol i anifeiliaid ac adar y corsydd hallt. Yn y cyfnod hwnnw roedd ynys wenithfaen Carreg yr Imbyll yn drawiadol ond oherwydd y cloddio fu tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg does fawr ddim ohoni ar ôl.

O ben y Garn, ymysg rhedyn a phrysgwydd, mae golygfa dda o'r dref a'r hafan a ddaeth yn harbwr maes o law. Pan fo llanw isel mae'r harbwr yn aml yn llawn adar hirgoes yn chwilio am eu pryd nesaf, pibyddion y traeth, cwtiaid y traeth, pibyddion coesgoch a chrehyrod. Os y'r llanw i mewn, cadwch lygad am y mingrwn sy'n bwydo yn y gwaddod organig cyfoethog. Wrth gerdded ar hyd y Cob gallech weld cip o glas y dorlan neu glywed cân yr ehedydd neu glochdar y cerrig yn y cefndir. Mae'r traeth tywodlyd, hir sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r Prom yn lle da i weld adar fel piody môr yn bwydo ar gregyn gleision, bilidowears yn hedfan modfeddi uwchben y dŵr neu, yn ystod misoedd yr haf, y môr wenoliaid yn plymio i ddal llymriaid.

Mae'r traethlinau hir ar hyd y tywod yn dal rhai o drysorau'r môr, gyda chregyn gleision, cregyn Iago cregyn cŵn, a chyllyll môr, ychydig o chwain traeth neu weddillion cramenogion wedi eu golchi i fyny ar y traeth a'u gadael yno gan y môr. O ben draw'r Prom mae llwybr ar y 'dwnan' yn mynd at y cwrs golff. O gwmpas y golff mae cymysgedd o borfa wlyb a choed yn ymestyn i gaeau gwlybion o gwmpas Afon Penrhos, bron at Garreg y Defaid sy'n gynefin perffaith ar gyfer llyffantod, nadroedd y gwair, ambell garlwm a'r dyfrigi swil.

## BRIEF HISTORY OF PWLLHELI

The old Denio centre at Penrallt was previously a Prince's court in the Calflogion Valley. In the second half of the twelfth century the court was removed, and a wooden castle was erected by the sea in the salt pit (pwll heli). There was a natural wharf where two rivers reached the sea: the River Erch and the River Talcymerau /Rhyd Hir. The wharf, a natural haven for wildlife, was also an ideal location as a fishing and trading centre. Carreg yr Imbyll was once an impressive granite island, but was extensively quarried towards the end of the nineteenth century and as a result very little remains of it today.

From the top of y Garn, nestled in amongst bracken and scrub, there's a good view of the town and the haven which eventually became a harbour. At low tide the harbour is often teeming with wading birds looking for their next meal, sandpipers, turnstones, redshank and egrets are just some that you might see. If the tide is in, look out for grey mullet feeding in the worm rich organic sediment. Making your way along Ffordd Cob you might be lucky enough to spot the bright blue glint of a kingfisher or hear the song of a skylark or stonechat making themselves heard amongst the background noise.

The long sandy beach running parallel to the Prom is a good place to view seabirds like the oystercatcher feeding on mussel shells, cormorants flying low and purposefully inches above the water or, during the summer months, common tern diving for sand eels out to sea. Long strandlines along the beach hold treasures from under the sea, with the shells of mussels, scallops, whelk and razor clams, little invertebrates like sandhoppers or the remains of crustaceans washed up and deposited by the sea. A short distance from the beach you can find yourself in amongst the footpaths crossing the golf course. The surrounding area is a mixture of wet pasture, damp willow dominated woodland intersected by Afon Penrhos, a perfect habitat for amphibians, grass snakes the occasional stoat and the elusive otter.

# ecoamgueddfa



## Saffari Bywyd Gwyllt Pwllheli Pwllheli Wildlife Safari



[www.ecoamgueddfa.org](http://www.ecoamgueddfa.org)

## Crëyr Glas

Hefo lled adenydd o dros 6 troedfedd, crëyr glas yw un o adar mwyaf adnabyddus Cymru gyda'i goesau hir, pig melyn llachar syth a streipen-lygaid du hir. Fe'i gwelir yn aml yn sefyll fel cerflun yn aros i bysgodyn nofio heibio. Adar sy'n hela am ysglyfaeth byw ydynt, yn aml pysgod a llyffantod mewn llynnoedd a nentydd, ond hefyd ymlusgiaid a llygod, mân famaliaid, adar bach neu grancod a hyd yn oed adar eraill. Mae crehyrod yn nythu mewn grwpiau mawr neu grëhyrfa, gan ddefnyddio prisiau i adeiladu nythod yn uchel ym mrig coed a nythu ym mis Chwefror neu fis Mawrth, dodwy 3-4 wy, hefo'r adar ifanc yn gadael y nyth ar ôl 6-8 wythnos.

## Dyfrgi

Dim ond un rhywogaeth o ddyfrgi sydd yn Ewrop, ac yn wahanol i'w gefinder yn America (dyfrgi môr) mae'n treulio llawer o'i amser mewn afonydd a llynnoedd. Gall hela a nofio mewn dŵr hallt ond mae angen dŵr croyw arno i lanhau ei ffwr. Daw'r rhan fwyaf o'r hyn y bydd dyfrgi yn ei fwyta o ddŵr, naill ai llyffantod, pysgod, crancod neu bysgod cregyn ond gallant hefyd fwyta mamaliaid bach ac adar dŵr. Mae'n anodd gweld dyfrgwn. Fel arfer gyda'r wawr ac wrth iddi fachlud yw'r amser gorau i'w gweld. Chwiliwch am dyllau yn y dorlan neu lefydd ag ôl sathru o gwmpas gwreiddiau coed ar lannau afonydd, ac efallai y dewch o hyd i fawr dyfrgi yn y cyffiniau.

## Celyn y môr

Mae dail pigog y planhigyn hwn yn debyg i gelyn, ond does dim cyswllt mwy na hynny rhwng y ddau ac mae'n dod o deulu planhigion wmbeliffer. Mae'n tyfu mewn mannau tywodlyd, a byth yn rhy bell o'r môr. Mae'n blodeuo drwy'r haf ac mae'r blodau glas, tebyg i ysgallen

yn rhoi cynhaliaeth i bryfed a gloynnod niferus yn ystod yr haf. Ers talwm roedd y planhigyn yma'n cael ei ddefnyddio fel meddyginiaeth i drin nifer o afiechydon, gan gynnwys trin cerrig ar yr arennau, clefyd yr iau ac fel diwretig. Yn ystod oes Elisabeth y cyntaf, cynaeafwyd y gwreiddiau a'u melysu i'w gwneud yn fwy blasus, a honnir eu bod yn affrodisiag effeithiol. Mae hyd yn oed yn cael eu crybwyll gan Shakespeare, sy'n eu disgrifio fel 'losinen garu'.

## Ceiliog rhedyn / Sioncod gwair

Mae gan sioncod antenau byr, sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth griced. Yr amser gorau i'w gweld yw yn ystod yr haf i ddechrau'r hydref mewn lleoedd heulog, glaswelltog. Maent yn bwyta planhigion, gwellt yn bennaf, ond gallant fwyta planhigion eraill hefyd. Caiff sioncod eu bwyta gan adar, llyffantod a nadroedd ond colli cynefinoedd yw'r bygythiad mwyaf iddynt. Mae'r sioncyn gwryw yn gwneud sŵn trwy rwbio ei goesau ôl gyda'i gilydd trwy broses o'r enw rhincian er mwyn denu cymar, sydd hefyd yn gwneud hi'n hawdd i ni ddod o hyd iddyn nhw.

## Cregyn lago / Cregyn bylchog

Fe'u gelwir weithiau yn gregyn Aberffraw. Mae'r gragen fawr oren neu binc i fyny ar 15cm ar draws yn hawdd i'w hadnabod. Mae'r creaduriaid yma'n folsygiad dwygragennog, gyda dwy gragen wedi'u huno gan golfach sy'n eu galluogi i agor a chau er mwyn amddiffyn y rhannau mewnol meddal. Mae un ochr y gragen yn wastad, tra bod y llall yn pantio gan ganiatáu i'r gragen gladdu ei hun mewn tywod neu raeau mân. Maen nhw'n bwyta drwy hidlo plancton ac organebau bach eraill yn y môr.



Crëyr Glas Heron



Cregyn lago Great scallop



Dyfrgi Otter



Ceiliog rhedyn Sea Holly



Ceiliog rhedyn Grasshopper

## Heron

With a wingspan of over 6 feet herons are one of Wales most recognisable birds. Grey backed with long legs, a straight bright yellow bill and long black eyestripe, it is often seen standing statue still waiting for a fish to swim by. Herons hunt for live prey, mainly fish and amphibians in streams, ponds, lakes, rockpools or estuaries but will also catch reptiles, small mammals, crustaceans and even other birds. Herons nest in large groups called heronries, building nests with sticks near the tops of trees, and nesting in February or March, laying 3-4 eggs with the young fledging after 6-8 weeks.

## Otter

The European otter is the only species of otter in Europe, and unlike its American cousin (Sea otter) it spends a lot of its time in rivers and lakes. It can hunt and swim in saltwater but needs freshwater to clean its fur. Most of what an otter will eat comes from water, either frogs, fish, crabs or shellfish but they can also eat small mammals and waterfowl. Otters are hard to spot, but dawn and dusk are usually the best time to see them. Look out for holes and burrows around tree roots on riverbanks, or spraints (droppings) for signs that otters are active in an area.

## Sea Holly

The spiky holly like leaves of this plant inspired the name, although the plant is not related to holly but is an umbellifer. Growing in sandy coastal areas the blue thistle like bloom is characteristic of this plant during the summer, attracting pollinators including hoverflies, butterflies, and bees. Historically this plant had many

medicinal uses, including to treat kidney stones, liver disease and as a diuretic. During the Elizabethan era the roots were harvested and candied to make them more palatable, and were reputedly an effective aphrodisiac, even mentioned by Shakespeare, calling them 'kissing comfits'.

## Grasshopper

Grasshoppers have short antennae, distinguishing them from crickets. The best time to see them is during the summer into early autumn in sunny, grassy places. They feed on plants, mainly grass but can eat other vegetation too, with their main threats apart from habitat loss being birds, frogs, toads and even snakes. Male grasshoppers make a sound by rubbing their hind legs together, a process called 'stridulation'. They do this to attract a female, and it's a good way for you to find out where these insects live.

## Great scallop

Also known as the common, or King scallop the large orange coloured shell (about 15cm on average) is easy to identify. Scallops are bivalve molluscs, with two shells joined by a hinge enabling them to open and close protecting the soft inner parts. One of the shells is flat, while the other is rounded meaning the scallop can bury itself in sand or fine gravel. Scallops are filter feeders, eating plankton and other small organisms that float in the sea by sucking water in and through a filter, trapping the food.



- 1 Creyr glas - Grey heron - *Ardea cinerea*
- 2 Llwynog - Fox - *Vulpes vulpes*
- 3 Draenog - Hedgehog - *Erinaceus europaeus*
- 4 Tylluan wen - Barn owl - *Tyto alba*
- 5 Pioden fôr - Oystercatcher - *Haematopus ostralegus*
- 6 Gylfinir - Curlew - *Numenius arquata*
- 7 Môr hesgen - Marram grass - *Ammophila arenaria*
- 8 Tragen fylchog - Great scallop - *Pecten maximus*



- 9 Sioncyn y gwair - Grasshopper - *Chorthippus brunneus*
- 10 Glesyn cyffredin - Common blue butterfly - *Polyommatus icarus*
- 11 Hyrddod llwyd - Grey mullet - *Liza ramada*
- 12 Neidry gwair - Grass snake - *Natrix natrix*
- 13 Dyfrgi - Otter - *Lutra lutra*
- 14 Glasy dorlan - Kingfisher - *Alcedo atthis*
- 15 Celyn y môr - Sea holly - *Lryngium maritimum*
- 16 Llygodyn pengrwn y dŵr - Water vole - *Arvicola terrestris*